# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 17EG MAWRTH, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 10 Mawrth 2022)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Aled Wyn Jones
Peredur Jenkins
Ioan Thomas
Simon Glyn

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
John Pughe Roberts

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Robin Wyn Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Goronwy Owen Edwards | Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy |

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17 Ionawr 2022 fel rhai cywir

**5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2022/23** 8 - 26

I ystyried yr adroddiad, mabwysiadu'r strategaeth a chadarnhau trefniadau cronni

**6. POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL** 27 - 41

I ystyried yr adroddiad a  chymeradwyo'r polisi Buddsoddi Cyfrifol

**7. POLISI SGILIAU A GWYBODAETH A CHYNLLUN HYFFORDDIANT 2022/23** 42 - 52

I ystyried yr adroddiad a chymeradwyo Polisi Sgiliau a Gwybodaeth a Chynllun Hyfforddiant 2022/23

**8. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** 53 - 56

I ystyried yr adroddiad

**PWYLLGOR PENSIYNAU 17-01-22**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins (Cadeirydd), Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

H Eifion Jones (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled Wyn Jones, Simon Glyn a John Pughe Roberts

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Amlygwyd bod cwestiynau wedi eu derbyn gan aelodau o'r cyhoedd, oedd yn bresennol yn y cyfarfod, nad oedd yn cyrraedd trothwy materion brys y Pwyllgor ond y byddai agweddau buddsoddi cyfrifol yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar y 17eg o Fawrth 2022.

**4. COFNODION**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021 fel rhai cywir.

**5. STAFFIO UNED GWEINYDDU PENSIYNAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Pensiynau am adnoddau ychwanegol fyddai'n galluogi'r Uned Weinyddu Pensiynau i ymateb i bwysau gwaith cynyddol ac ymdopi'n effeithlon â lefel y gwaith sydd angen ei gwblhau. Er mwyn gwella effeithlonrwydd yr Uned Gweinyddu Pensiynau, cynigiwyd addasiadau i'r strwythur presennol ac amlygwyd mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Pensiynau oedd pennu cyllideb i sicrhau adnoddau digonol ar gyfer gweithredu hyn.

Eglurwyd bu cynnydd yn yr angen am ddealltwriaeth ddwys o reoliadau cymhleth y gronfa bensiwn, a bu arfarniad o swyddi'r Cymhorthyddion Pensiynau o raddfa GS3 (amrediad cyflog £19,312 - £19,698) i raddfa GS4 (£20,092 - £21,748). Gydag

ychwanegiad costau cyflogwr yn gynnydd o £2,799 ar gyfer 6 swydd (ar uchafbwynt y raddfa) byddai'r gost o ariannu'r cynnydd yn £16,794 y flwyddyn.

Nodwyd bod Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy wedi cyflwyno opsiwn deniadol ar gyfer Cyfraniadau Gwirfoddol Aberthu Cyflog (AVCs) ac o ganlyniad rhagwelwyd cynnydd mawr mewn defnydd o'r cynllun yma wedi i'r Cynghorau ei hyrwyddo'n llawn. I gyfarch y cynnydd yn y gwaith o weinyddu'r cyllun, cynigiwyd cyflogi un Swyddog Pensiynau newydd ar raddfa S2 (£24,982 - £27,041). Gydag ychwanegiad costau'r cyflogwr, ar uchafbwynt y raddfa, byddai'r gost o ariannu'r swydd newydd yn £35,704. Ategwyd bod prif gyflogwyr y Gronfa yn gwireddu arbedion sylweddol wrth leihau cyfraniadau yswiriant cenedlaethol gyda'r Cynllun AVCs - arbedion llawer mwy na chost ariannu'r swydd Swyddog Pensiynau. Felly, mewn egwyddor, o ystyried cyllidebau'r cyflogwyr ynghyd â chyllideb y Gronfa Bensiwn, ni fyddai cynnydd yn y gyllideb net.

Yn ychwanegol, mewn ymateb i ddyfarniad y Llys Apêl yn achos 'McCloud' yn erbyn Llywodraeth y DU, adroddwyd bod y Llywodraeth bellach wedi cadarnhau y bydd newidiadau i bob prif gynllun sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, i ddiddymu gwahaniaethu ar sail oedran. Mewn ymateb i weithredu'r newidiadau (a elwi'r yn Prosiect McCloud), bydd angen casglu gwybodaeth am yr oriau a weithiwyd, ynghyd â manylion toriadau mewn gwasanaeth ar gyfer yr holl weithwyr cymwys sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2022. Yn ogystal â diweddaru'r cofnodion, bydd angen ail-gyfrifo'r buddion marwolaeth, y buddion ymddeoliad, a'r buddion gohiriedig o'r aelodau sydd wedi gadael yn ystod yr 8 mlynedd ddiwethaf. Bydd hyn yn golygu ail-edrych ar ffeithiau ac ail gyfrifo miloedd o gofnodion aelodau. Er bydd gweithredu Prosiect McCloud yn waith sylweddol i'r Uned, mae'n debyg mai nifer fechan iawn o aelodau fydd yn gweld cynnydd yng ngwerth eu buddion ar ddiwedd y prosiect.

Adroddwyd bod nifer o gronfeydd pensiwn tebyg o ran maint wedi comisiynu staff o asiantaethau allanol i ymgymryd â'r gwaith, ond byddai hynny yn opsiwn ddrud o'i gymharu â chadw'r gwaith yn fewnol. Cytunodd sawl aelod byddai'r Gronfa yn isafu'r gost drwy gyflogi 3 Cymhorthydd Pensiynau ychwanegol dros dro am gyfnod o 2 flynedd (gyda phosibilrwydd o estyniad os bydd y gwaith yn parhau heibio 2 flynedd) er mwyn ymgymryd â gwaith Prosiect McCloud.

Ategodd Cyfarwyddwr y Gronfa bod yr argymhellion wedi eu herio gan yr Adran Cyllid a'u bod yn argymhellion rhesymol ac anorfod. Nododd hefyd er y byddai prif gyflogwyr y Gronfa yn gwireddu arbedion sylweddol wrth leihau cyfraniadau yswiriant cenedlaethol gyda'r cynllun AVCs, mai arbedion i'r cyflogwyr fyddai'r rhain ac nid arbedion i'r Gronfa.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod effeithlonrwydd staff yn allweddol i'r cynllun.
- Bod yr opsiwn o gadw'r gwaith yn fewnol i'w groesawu.
- Bod yr £85k (Prosiect McCloud) yn swm dros dro - rhaid derbyn bod costau i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn gywir.
- Nad oedd modd osgoi'r gwaith ychwanegol - yr argymhellion yn ffordd o symud ymlaen mewn modd realistig.
- Bod yr argymhellion yn gost effeithiol ac yn cynnig cyfleoedd i staff.

Ategodd Aelod o'r Bwrdd Pensiwn bod gweinyddiaeth y Gronfa yn faes blaenoriaeth sydd angen arbenigedd a phroffesiynoldeb. Roedd yn ffyddiog byddai'r Bwrdd Pensiwn yn gefnogol i'r argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Cymeradwyo cynnydd £137,929 mewn gwariant ar staff yr Uned Bensiynau erbyn 2022/23:**
  - **Creu 4 swydd newydd**

    **Swyddog Pensiynau (i gefnogi gwaith AVSs) a 3 Cymhorthydd Pensiynau (cytundeb 2 flynedd ar gyfer prosiect McCloud – gyda phosibilrwydd o estyniad os bydd y gwaith yn parhau heibio 2 flynedd) (cyfanswm costau blynyddol £121,135)**

  - **Cynyddu cyflog 6 Cymhorthydd Pensiynau o GS3 i GS4 (cyfanswm costau blynyddol £16,794)**

## 6. CYMERADWYO CYLLIDEB 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i gyllideb ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021–2022,

Adroddwyd bod y gyllideb bellach yn cael ei chymeradwyo yn flynyddol gan y Pwyllgor Pensiynau ac eglurwyd bod cyllideb 2022/23 yn cynnwys yr addasiadau i strwythur staff yr Uned Gweinyddu Pensiynau a gymeradwywyd yn eitem 5 uchod.

Nodwyd nad oedd y gyllideb yn cynnwys ffioedd Rheolwyr Buddsoddi nac Ymgynghorwyr, gan ei fod yn wariant newidiol. Er hynny, nodwyd y byddai'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa. Ategwyd bod y swyddogion yn adolygu'r gyllideb yn fisol gyda chefnogaeth Hymans, ynghyd â monitro gwariant Partneriaeth Pensiwn Cymru yn barhaus i sicrhau gwerth am arian.

Diolchwyd am yr adroddiad hunanesboniadwy a chryno.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth.**
- **Cymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.**

## 7. PRISIAD 2022: RHAGDYBIAETHAU ACTIWARAIDD

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gronfa yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo rhagdybiaethau actiwaraidd a awgrymwyd gan Hymans, Actiwari'r Gronfa, i'w defnyddio ym mhrisiad 2022. Eglurwyd bod y rhagdybiaethau actiwaraidd sylfaenol yn elfen allweddol o'r strategaeth ariannu ac y dylent geisio adlewyrchu disgwyliadau'r Gronfa i'r dyfodol ynghyd â lefel dymuniad risg. Gyda gwybodaeth gyfredol ac amgylchedd y Gronfa yn esblygu, a'r cydbwysedd rhwng darbodusrwydd a fforddiadwyedd yn amrywio oherwydd dylanwad ffactorau allanol, mae adolygu'r rhagdybiaethau actiwaraidd a fabwysiadwyd gan y Gronfa fel rhan o bob prisiad teirblynyddol yn angenrheidiol ac yn ymarfer da.

Adroddwyd mai pwrpas y prisiad yw adolygu'r strategaeth ariannu gyfredol yng ngoleuni newidiadau i'r amgylchedd economaidd, rheoliadol a chymdeithasol ynghyd a gosod cyfradd cyfrannu ar gyfer pob cyflogwr a delir (yn yr achos hwn) rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2026, pryd bydd cyfraddau'n cael eu hail-asesu ar brisiad 2025; a gwirio'r sefyllfa ariannu gyfredol.

Er mwyn pennu'r lefel ofynnol o gyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol, rhaid cynnal rhagamcaniad buddion a rhagamcaniad asedau. Wedi hyn, bydd y cyfraddau cyfrannu yn cael eu gosod, fel bod ar ddiwedd cyfnod y cytunwyd arno bod digon o asedau i gwrdd â'r taliadau buddion yn y dyfodol.

Trafodwyd yr holl ragdybiaethau ariannol a'r rhai demograffeg yn unigol, gan egluro rhesymeg dros yr hyn a gynigiwyd ar gyfer 2022, ynghyd a'r rhesymau dros unrhyw newid. Ategwyd bod y cyfarfod a gynhaliwyd bore 17 o Ionawr 2022 gyda'r Aelodau, y swyddogion a'r Actiwari yn manylu ar y rhagdybiaethau wedi bod yn fuddiol iawn.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod yr addasiadau prin i'r rhagdybiaethau ers prisiad 2019 i gyd yn rhesymol.
- Bod y maes yn un technegol ac arbenigol iawn ac felly angen rhoi ffydd yng ngwaith a chyngor yr arbenigwyr.
- Angen bod yn bwyllog a doeth.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth.**
- **Cymeradwyo rhagdybiaethau actiwaraidd a awgrymwyd gan Hymans Robertson, Actiwari y Gronfa i'w defnyddio ym Mhrisiad 2022**

  **(Yn amodol ar adolygiad posib ym mis Hydref 2022, bydd y rhain yn cael eu ffurfioli mewn fersiwn wedi'i diweddaru o'r Datganiad Strategaeth Ariannu yn 2023)**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 14:50

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **17 MAWRTH 2022** |
| TEITL: | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2022/23** |
| PWRPAS: | **Gofyn i'r Pwyllgor Pensiynau fabwysiadu'r strategaeth a chadarnhau trefniadau cronni** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. STRATEGAETH FUDDSODDI Y GRONFA BENSIWN

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2022/23, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (sy'n amgaeedig fel Atodiad A). Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2022/23 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2022.

## 2. LLIF ARIAN Y GRONFA BENSIWN

Mae mewnlif net o arian i'r Gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol â chostau. Pan fydd lefel yr arian dros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi y Gronfa. Fel rheol bydd tua £10 miliwn yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y Gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod dros £25 miliwn.

## 3. CRONNI ER MWYN UCHAFU DYCHWELIADAU

Ar hyn o bryd mae holl arian dros ben y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian dros ben y Gronfa Bensiwn gael ei gronni efo balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg fod cronni yn caniatáu manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc, ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Mae'r adroddiad a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2022 yn cynnwys cytundeb i barhau'r trefniant cronni gyda'r Gronfa Bensiwn yn dilyn unrhyw gais gan y Pwyllgor Pensiynau.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys atodol am 2022/23, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A).

4.2 Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2022 ymlaen.

**ATODIAD A**

## Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2022/23

### 1. Cyflwyniad

**1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyngor.

**1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2017* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

**1.3** Yn unol ag Arweiniad LlC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen gyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi, neu golled sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon diwedd blwyddyn.

### 2-5 Dim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

### 6. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys

**6.1** Mae gan y Cyngor arian wedi'i fuddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £62.9 a £147.9 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pŵlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi.

Fel arfer, nid yw benthyciadau i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a phrynu eiddo fel buddsoddiad yn cael eu hystyried yn fuddsoddiadau trysorlys, ac felly rydym yn delio â'r rhain ar wahân yn **Atodiad 3.**

**6.2 Amcanion**

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir.

**6.3 Cyfraddau llog negyddol**

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cynyddu'r risg y bydd Banc Lloegr yn gosod ei Gyfradd Banc ar neu o dan sero, sy'n debygol o fwydo drwodd i gyfraddau llog negyddol ar yr holl opsiynau buddsoddi tymor byr risg isel. Gan na all buddsoddiadau dalu incwm negyddol, cymhwysir cyfraddau negyddol trwy leihau gwerth buddsoddiadau. Os yw hyn yn digwydd, bydd diogelwch yn cael ei fesur fel derbyn y swm cytundebol a fuddsoddwyd ar aeddfedrwydd, er gallai'r swm yma fod yn llai na fuddsoddwyd yn wreiddiol.

**6.4 Strategaeth**

Gyda'r cynnydd parhaus yn y risg ac enillion isel iawn o fuddsoddiadau banc tymor byr ansicredig, bydd y Cyngor yn anelu at barhau i ddal dosbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu gynnyrch uwch yn ystod 2022/23. Mae hyn yn benodol yr achos ar gyfer yr £10m amcangyfrifedig sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hirach. Mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan y Cyngor wedi'i fuddsoddi mewn adneuon banc anwarantedig, adneuon Llywodraeth DU, awdurdodau lleol a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n parhau'r strategaeth a fabwysiadwyd yn 2015/16.

**6.5 Modelau busnes**

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y Cyngor i'w rheoli. Mae'r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda

model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae’r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

### 6.6 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o’r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a’r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi’u Cymeradwyo a’r terfynau**

| Sector | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | d/b |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | 25 mlynedd | £10m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau â sicrwydd * | 25 mlynedd | £10m | Diderfyn |
| Banciau (ansicredig) * | 13 mis | £5m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) * | 13 mis | £5m | £10m |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) * | 5 mlynedd | £5m | £25m |
| Cronfeydd marchnad arian * | d/b | £10m | Diderfyn |
| Cronfeydd cyfun strategol | d/b | £10m | £50m |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | d/b | £10m | £25m |
| Buddsoddiadau eraill * | 5 mlynedd | £5m | £10m |

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â’r nodiadau canlynol.

### 6.7 Statws Credyd

Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â *. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartïon. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael ei gwneud

ar sail cyfraddau credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

**6.8 Llywodraeth**

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan, lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun *'bail-in'*, ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg. Bernir nad oes gan fuddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

**6.9 Buddsoddiadau â Sicrwydd**

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

**6.10 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)**

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

**6.11 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)**

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

**6.12 Cronfeydd Marchnad Arian**

Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw'r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyngor yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

**6.13 Cronfeydd Cyfun Strategol**

Cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo sy'n cynnig enillion gwell dros y tymor hir ond sy'n fwy anwadal yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Cyngor ehangu i ddosbarthiadau o asedau ar wahân i arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, a'u bod ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i barhau i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Cyngor yn cael eu monitro'n gyson.

**6.14 Ymddiriedolaethau Buddsoddi Ystâd Real**

Cyfranddaliadau mewn cwmnïau sy'n buddsoddi'n bennaf mewn ystâd real ac sy'n talu'r mwyafrif o'u hincwm rhent i fuddsoddwyr mewn modd tebyg i gronfeydd eiddo cyfun. Yn yr un modd â chronfeydd eiddo, mae ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real yn cynnig enillion gwell dros y tymor hir, ond maent yn fwy anwadal yn enwedig gan fod pris y cyfranddaliadau yn adlewyrchu'r galw newidiol am y cyfranddaliadau ynghyd â newidiadau yng ngwerth yr eiddo sylfaenol.

**6.15 Buddsoddiadau eraill**

Mae'r categori yma yn cynnwys buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi'u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol ansicredig a benthyciadau cwmni. Nid yw cwmnïau heblaw banciau yn destun *'bail-in'* ond gallent fynd yn fethdalwr gan roi buddsoddiad y Cyngor mewn perygl.

**6.16 Cyfrifon banc gweithredol**

Gall y Cyngor ddelio gyda unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon

cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau '*bail-in'*, ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun *'bail-in'* na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

**6.17 Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Mae'r asiantaethau statws credyd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi'u rhestru yn nogfen Arferion Rheolaeth Trysorlys. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

**6.18 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau**

Mae'r Cyngor yn deall bod graddfeydd statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol a dadansoddiad a chyngor gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2020, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

## 6.19 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £100 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2022 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 10% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffygdalu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthyca i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £10 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

**Tabl 4: Terfynau ychwanegol**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth | £25m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £25m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £10m fesul gwlad |

## 6.20 Rheoli hylifedd

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymiadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar

fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

## 7. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

### 7.1 Diogelwch

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg ganfyddedig.

| **Dangosydd risg credyd** | **Targed** |
|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 6.0 |

### 7.2 Hylifedd

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

| **Dangosydd risg hylifedd** | **Targed** |
|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £10m |

## 7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Yr effaith refeniw ar gyfyngiadau uwch dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

| **Dangosydd risg cyfradd llog** | **Cyfyngiad** |
|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn codiad 1% yng nghyfraddau llog | £643,000 |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chwymp o 1% yng nghyfraddau llog | £643,000 |

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llog ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau marchnad newydd.

## 7.4 Dim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

## 7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na flwyddyn

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| **Dangosydd risg pris** | **2022/23** | **2023/24** | **2024/25** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £20m | £20m | £20m |

## 8. Materion Cysylltiedig

**8.1** Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

## 8.2 Cytundebau Deilliadau

Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd y Cyngor yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno a thrafodion sy'n dechrau yn y dyfodol, yn

cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol â risg cyffredinol y strategaeth rheolaeth trysorlys.

**8.3 Cronfeydd Allanol**

Yn gynwysedig ym malansau'r Cyngor mae balansau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, GwE, Cronfa'r Degwm a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Dyrennir yr incwm llog i bob sefydliad yn seiliedig ar falansau dyddiol.

**8.4 Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol**

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

**9. Arweiniad Llywodraeth Cymru**

Mae materion pellach sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn **Atodiad 3**.

**10. Goblygiadau Ariannol**

**10.1** Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2022/23 yw £0.4 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £57.5 miliwn ar gyfradd llog o 0.01% ar gyfer adneuon a £10 miliwn o gronfeydd cyfun ar enillion o 4.08%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

**11. Ystyried Opsiynau Eraill**

**11.1** Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau ariannol a rheoli risgiau.

| Dewis Arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau hirach | Bydd incwm llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion  yn llai |

**Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2021**

- Mae'r adferiad byd-eang o'r pandemig wedi symud i gyfnod mwy heriol. Mae'r ail-afael yn y galw wedi arwain at y cynnydd disgwyliedig mewn pwysau chwyddiant, ond mae'r ffactorau sydd wedi amharu ar gyflenwadau wedi chwyddo'r effeithiau, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y cyfraddau twf yn is yn y dyfodol. Mae dyfodiad yr amrywiolyn Omicron o'r coronafeirws yn effeithio ar weithgarwch a hefyd yn ein hatgoffa o'r risgiau anfanteisiol posib.
- Er gwaethaf data arolwg gweithgarwch cymharol fywiog, mae data swyddogol GDP yn dangos bod twf yn gwanhau wrth symud i Ch4 2021. Fodd bynnag, awgrymodd data arall fomentwm parhaus, yn enwedig ar gyfer mis Tachwedd. Cododd lefelau gwerthiant siopau 1.4%, cynyddodd PMIs a pharhaodd y farchnad lafur i gryfhau. Ymddengys na chafodd diwedd ffyrlo effaith sylweddol ar ddiweithdra. Cododd twf cyflogau.
- Cododd cyfradd chwyddiant CPI i 5.1% ar gyfer mis Tachwedd a bydd yn codi'n uwch yn y tymor agos. Er bod disgwyl i'r ffactorau dros-dro sy'n effeithio ar chwyddiant lacio dros amser, pryder llunwyr polisi yw pwysau parhaus ar brisiau tymor canolig.
- Ysgogodd y ffactorau hyn i'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) godi'r Gyfradd Banc i 0.25% yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Mae disgwyliadau cyfradd llog tymor byr yn dal yn uchel.
- Fodd bynnag, mae'r rhagolwg yn ymddangos yn wannach. Mae gwariant gan aelwydydd yn wynebu pwysau gan gyfuniad o brisiau uwch a chynnydd mewn trethi. Yn y tymor byr iawn, mae'r amrywiolyn Omicron eisoes wedi effeithio ar dwf - gallai gweithgarwch Ch4 a Ch1, ar ei orau, fod yn wan.
- Mae enillion bondiau tymor hir y llywodraeth yn parhau'n gymharol isel er gwaethaf yr arwyddion mwy ymosodol gan y BoE a'r Federal Reserve. Mae buddsoddwyr yn bryderus y bydd tynhau sylweddol ar bolisi yn y tymor agos yn arafu twf ac yn ysgogi'r angen am bolisi llacach yn ddiweddarach. Mae risgiau daearyddol-wleidyddol a choronafeirws hefyd yn ysgogi pryniannau hafan ddiogel. Y canlyniad yw cromlin enillion llawer mwy gwastad, gan fod enillion tymor byr yn codi wrth i enillion tymor hir ostwng hyd yn oed.
- Er gwaethaf yr amrywiolyn Omicron, mae'r cynnydd yn y Gyfradd Banc yn dangos y bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) yn gweithredu i ddod â chwyddiant i lawr, beth bynnag fo'r amgylchedd. Mae hefyd wedi datgan yn glir ei fwriadau i dynhau polisi ymhellach. Er y bydd y rhagolwg economaidd yn heriol, mae'r arwyddion gan lunwyr polisi yn awgrymu mai eu dyhead fydd tynhau polisi oni bai bod data yn awgrymu y bydd arafu mwy sylweddol.

**Rhagolygon:**

- Bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) eisiau adeiladu ar y neges gref a ryddhaodd y mis hwn drwy dynhau polisi er gwaethaf ansicrwydd Omicron.
- Felly, mae Arlingclose yn disgwyl i'r Gyfradd Banc gynyddu i 0.50% yn Ch1 2022, ond aros yno wedyn. Mae'r risgiau i'r rhagolygon wedi'u cydbwyso ar y tu uchaf yn y lle cyntaf ond yn dod yn fwy sefydlog dros amser. Mae rhagolwg canolog Arlingclose yn dal islaw darpar gromen y farchnad.
- Bydd enillion gilt fwy neu lai yn parhau'n wastad o'r lefelau presennol. Mae enillion wedi gostwng yn sydyn ar ddiwedd hirach y gromen enillion, ond mae’r disgwyliadau o ran cynnydd yn y Gyfradd Banc wedi cadw enillion gilt tymor byr ar lefelau uwch.
- Gallai lleddfu disgwyliadau ar gyfer y Gyfradd Banc dros amser ysgogi'r gromen enillion i godi, wrth i fuddsoddwyr gynnwys disgwyliadau chwyddiant uwch.
- Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhagolygon enillion gilt yn amrywio. Yn y lle cyntaf, mae'r risgiau ar gyfer enillion tymor byr a chanolig ar y tu uchaf ond yn mynd yn is yn ddiweddarach. Mae'r risg ar gyfer enillion tymor hir ar y tu uchaf.

| | Dec-21 | Mar-22 | Jun-22 | Sep-22 | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Arlingclose Central Case | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 3-month money market ra | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.05 | 0.05 | 0.25 | 0.35 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Arlingclose Central Case | 0.25 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.65 | 0.65 | 0.65 | 0.65 | 0.65 | 0.65 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.25 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.35 | -0.35 | -0.35 | -0.35 | -0.35 | -0.35 |
| 5yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.35 | 0.45 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.50 | 0.50 | 0.45 | 0.45 |
| Arlingclose Central Case | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.75 | 0.75 |
| Downside risk | -0.10 | -0.20 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.30 | -0.35 | -0.40 | -0.40 |
| 10yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.10 | 0.25 | 0.35 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 |
| Arlingclose Central Case | 0.80 | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 0.90 | 0.95 | 0.95 |
| Downside risk | -0.10 | -0.25 | -0.30 | -0.35 | -0.35 | -0.35 | -0.35 | -0.35 | -0.35 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 |
| 20yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.30 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Arlingclose Central Case | 1.00 | 1.05 | 1.10 | 1.10 | 1.10 | 1.10 | 1.15 | 1.15 | 1.15 | 1.20 | 1.20 | 1.20 | 1.20 |
| Downside risk | -0.15 | -0.30 | -0.35 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.45 | -0.45 | -0.45 | -0.45 |
| 50yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.25 | 0.30 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Arlingclose Central Case | 0.70 | 0.75 | 0.80 | 0.85 | 0.90 | 0.95 | 1.00 | 1.05 | 1.05 | 1.10 | 1.10 | 1.15 | 1.15 |
| Downside risk | -0.15 | -0.30 | -0.35 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.45 | -0.45 | -0.45 | -0.45 |

PWLB Standard Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 1.00%
PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%
PWLB Infrastructure Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.60%

**Atodiad 2- Sefyllfa Portffolio Buddsoddi Bresennol**

| | 31.12.2021 Gwir Bortffolio £m | 31.12.2021 Cyfradd Cyfartalog % |
|---|---|---|
| **Buddsoddiadau trysorlys:** | | |
| Banciau a Chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 14.5 | 0.13 |
| Llywodraeth DU | 5.0 | 0.08 |
| Awdurdodau Lleol | 27.0 | 0.06 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 27.0 | 0.04 |
| Cronfeydd wedi'i pŵlio | 10.0 | 3.97 |
| **Cyfanswm buddsoddiadau trysorlys** | **83.5** | **0.53** |

**Atodiad 3- Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) Ganllaw Buddsoddi diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sy'n gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys y Cyngor hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydyn nhw'n rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

**Cyfraniad:** Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaeth a / neu i hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,
- mae benthyciadau i sefydliadau lleol yn darparu cymorth ariannol i'r sefydliadau hynny i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a fyddai fel arall yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor, a
- mae eiddo buddsoddi yn darparu gwarged ariannol net sy'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.

**Newid yn yr hinsawdd:** Mae penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor yn ystyried risgiau hinsawdd tymor hir i gefnogi economi carbon isel i'r graddau, os oes buddsoddiad carbon isel cyfwerth ar gael gyda'r un enillion, yna byddai'n well gan y Cyngor y buddsoddiad carbon isel.

**Buddsoddiadau penodedig**: Mae Canllawiau LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel y rheini:

- wedi'i enwi mewn punt sterling,
- i fod i gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis ar ôl y trefniant oni bai bod y gwrthbarti yn awdurdod lleol,
- heb ei ddiffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- buddsoddi gydag un o:
    - Llywodraeth y DU,
    - Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymunedol yn y DU, neu
    - Corff neu gynllun buddsoddi o “ansawdd credyd uchel”.

Mae'r Cyngor yn diffinio sefydliadau a gwarantau “ansawdd credyd uchel” fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch sy'n hanu o'r DU neu wlad dramor sydd â sgôr sofran o AA + neu'n uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, diffinnir “ansawdd credyd uchel” fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch.

**Benthyciadau**: Dim yn berthnasol i’r Gronfa Bensiwn

**Buddsoddiadau amhenodol:** Mae unrhyw fuddsoddiad ariannol nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o fuddsoddiad neu fenthyciad penodol yn cael ei ddosbarthu fel un amhenodol. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori hwn yn berthnasol i unedau mewn cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cwmnïau yn unig. Dangosir cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodol yn nhabl 3b; mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodol cyfredol yn aros o fewn y terfynau hyn.

*Tabl 3b: Terfynau buddsoddiadau amhenodol*

| | **Terfyn arian** |
|---|---|
| Unedau mewn cronfeydd cyfun heb statws credyd neu wedi'u graddio islaw A- | £20m |
| Cyfranddaliadau mewn ymddiriedolaethau buddsoddi eiddo tiriog | £10m |
| Cyfanswm buddsoddiadau amhenodol | £30m |

**Buddsoddiadau anariannol:** Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau anariannol a ddelir yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw, eiddo buddsoddi yn bennaf. Penderfynir ar ddiogelwch trwy gymharu pris prynu pob ased â’i werth teg gan ddefnyddio’r model yn Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40: Eiddo Buddsoddi fel y’i haddaswyd gan arferion priodol. Ar asesiad ar 31 Mawrth 2021, mae'r Cyngor o'r farn nad yw graddfa ei fuddsoddiadau anariannol yn sylweddol.

**Hylifedd**: Ar gyfer buddsoddiadau ariannol nad ydynt yn fuddsoddiadau neu fenthyciadau rheoli trysorlys, mae gan y Cyngor weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu hymrwymo’n ddarbodus am y cyfnod hiraf o amser.

**Ymgynghorwyr Buddsoddi:** Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyled a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

**Benthyg cyn yr angen:** Dim yn berthnasol i’r Gronfa Bensiwn

**Trefniant masnachol:** Os bydd trefniant masnachol, mae'r unigolion sy'n gwneud y fargen yn ymwybodol o egwyddorion craidd y fframwaith darbodus a'r drefn reoleiddio y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddi.

**Capasiti, sgiliau a llywodraethu corfforaethol:** Gwahoddwyd aelodau etholedig a swyddogion i gyflwyniad gan Arlingclose ar 7fed Chwefror 2022. Mae'r wybodaeth a'r drafodaeth yn y cyflwyniad yn sicrhau bod gan yr aelodau'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w galluogi i:

- Wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid ymrwymo i fuddsoddiad penodol.

- Asesu asesiadau unigol yng nghyd-destun amcanion strategol a phroffil risg y Cyngor
- Deall sut mae cwantwm y penderfyniadau hyn wedi newid amlygiad risg cyffredinol yr awdurdod lleol.

Mae swyddogion hefyd yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau ya ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Anogir staff perthnasol hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, ACA a sefydliadau priodol eraill.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **17 MAWRTH 2022** |
| TEITL: | **POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL** |
| PWRPAS: | **I gymeradwyo'r polisi Buddsoddi Cyfrifol** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, CYFARWYDDWR Y GRONFA A DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw cymeradwyo polisi Buddsoddi Cyfrifol Cronfa Bensiwn Gwynedd.

1.2 Mae'r polisi yma wedi ei drafod gan y Bwrdd Pensiwn ar Fawrth 7fed 2022.

**2. BUDDSODDI CYFRIFOL**

2.1 Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol fod yn risg ariannol i'r rhanddeiliaid a gall ddylanwadu ar enillion ac enw da hirdymor y Gronfa.

2.2 Mae'r Gronfa wedi rhyddhau dau ddatganiad buddsoddi cyfrifol yn Ebrill a Gorffennaf 2021 a nawr wedi ffurfioli'r credoau o fewn y polisi.

**3. POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL**

3.1 Mae'r polisi drafft yn Atodiad 1 ac yn cwmpasu'r prif feysydd canlynol:

- Credoau Buddsoddi
- Ymgysylltu
- Adrodd a Datguddiadau
- Lleihau allyriadau carbon y Gronfa ac amcanion y dyfodol
- Fframwaith i gefnogi uchelgais hinsawdd y Gronfa

**4. AMCAN NET SERO**

4.1 O fewn y polisi, mae'r Gronfa wedi ymrwymo i osod amcan i fod yn net sero erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonolrwydd y Gronfa i gyrraedd net sero 5,10 neu 15 mlynedd ynghynt. Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth osod y nod hwn yn cael eu trafod yn y polisi.

4.2 Mae fframwaith wedi'i ddatblygu i gefnogi uchelgeisiau'r Gronfa, gan gwmpasu cyfleoedd, ymgysylltu, a monitro a metrigau.

**5. DATBLYGIADAU'R DYFODOL**

5.1 Ar hyn o bryd, gall cronfeydd CPLlL wneud penderfyniadau darbodus ynghylch dargyfeirio yn seiliedig ar asesiad o ganlyniadau ariannol nifer o faterion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG). Gweler yn atodiad 2 bod y Bil Boicotio, Ymddieithrio a

Sancsiynau (BDS) wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar lle mae mesurau i gyfyngu ar wariant a phenderfyniadau caffael a wneir gan gyrff cyhoeddus wedi'u cyhoeddi. Byddai'r datblygiadau hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau i'r awdurdodau hynny sy'n gweinyddu cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y cynllun pensiwn llywodraeth leol, na allant wneud penderfyniadau buddsoddi sy'n gwrthdaro â pholisi tramor ac amddiffyn y DU.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r polisi Buddsoddi Cyfrifol.

# Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mawrth 2022

# Cynnwys

Cyflwyniad........................................................................**Error! Bookmark not defined.**

Buddsoddi Cyfrifol............................................................**Error! Bookmark not defined.**

Canllawiau Cyfreithiol……………………………………………………………………3

Credoau Buddsoddi...............................................................................................4

Ymgysylltu........................................................................**Error! Bookmark not defined.**

Datgelu ac Adrodd ..............................................................................................5

Lleihau Allyriadau Carbon y Gronfa ac Amcanion y Dyfodol..........................................6

Fframwaith i gefnogi uchelgeisiau Hinsawdd y Gronfa ..................................................7

Cysylltu .............................................................................................................8

Atodiad 1: Monitro Rheolwyr Asesau Cronfa Bensiwn Gwynedd…………………………..9

# Cyflwyniad

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa). Mae'r Gronfa yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar gyfer oddeutu 49,600 o aelodau sydd yn cynnwys Cynghorau Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, nifer o gynghorau cymuned a thref, a chyrff eraill ar yr atodlen ac a ganiateir.

O fewn ei Gyfansoddiad, mae Cyngor Gwynedd wedi dirprwyo cyfrifoldeb gweinydd y CPLlL i'r Pwyllgor Pensiynau o aelodau etholedig. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn gorff gwneud penderfyniadau dros y Gronfa, sy'n cael ei gynghori gan swyddogion y Gronfa yn eu rôl fel gweinyddwyr y cynllun. Mae'r swyddogion a Pwyllgor Pensiynau yn cael cymorth gan Fwrdd Pensiwn Lleol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o aelodau CPLlL a sefydliadau cyflogi CPLlL.

Mae'r gwaith o reoli buddsoddiadau'r Gronfa o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i gwmnïau rheoli asedau proffesiynol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr y Gronfa, lle disgwylir iddynt ddarparu crynodeb o'r camau y maent wedi'u cymryd, neu wrthi'n eu cymryd, i ystyried buddsoddi cyfrifol o ddydd i ddydd.

# Buddsoddi Cyfrifol

Nod Cronfa Bensiwn Gwynedd yw sicrhau enillion buddsoddi cryf dros y tymor hir, gan ddiogelu buddiannau ein rhanddeiliaid trwy gyfrannu at system ariannol fwy cynaliadwy a gwydn, sy'n cefnogi twf economaidd cynaliadwy a chymdeithas lewyrchus.

Pwrpas Cronfa Bensiwn Gwynedd wrth wneud hyn yw rheoli risg yn well a chynhyrchu enillion cynaliadwy, hirdymor. Mae pob cam gweithredu yn seiliedig ar gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol craidd – ein 'dyletswydd ymddiriedol' – i'r cyflogwyr ac aelodau'r cynllun.

Mae'r Gronfa'n cydnabod y gall materion llywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol ('ESG') gynrychioli risg ariannol sylweddol i'w rhanddeiliaid a dylanwadu ar elw ac enw da hirdymor y Gronfa. O ystyried hyn, nod y Pwyllgor yw bod yn ymwybodol o ffactorau ESG sy'n berthnasol yn ariannol, a'u monitro.

Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Buddsoddiad Cyfrifol yn disgrifio'r rhain fel:

- Materion amgylcheddol: newid yn yr hinsawdd – gan gynnwys risg ffisegol a risg trawsnewid; disbyddiad adnoddau, gan gynnwys dŵr; gwastraff a llygredd; dadgoedwigo.
- Materion cymdeithasol: amodau gwaith, gan gynnwys caethwasiaeth a llafur plant; cymunedau lleol, gan gynnwys cymunedau brodorol; gwrthdaro; iechyd a diogelwch; cysylltiadau gweithwyr ac amrywiaeth.
- Materion llywodraethu: tâl swyddogion gweithredol; llwgrwobrwyo a llygredd; lobïo gwleidyddol a rhoddion; amrywiaeth a strwythur y bwrdd; strategaeth dreth.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried agwedd y Gronfa at stiwardiaeth hefyd fel maes allweddol drwy weithredu fel buddsoddwr cyfrifol a gweithredol, drwy gomisiynu pleidleisio ystyriol ar ran y Gronfa fel cyfranddalwyr, a thrwy ymgysylltu'n anuniongyrchol â rheolwyr y cwmnïau y buddsoddir ynddynt fel rhan o'r broses fuddsoddi.

# Canllawiau Cyfreithiol

Yn 2014, eglurodd Comisiwn y Gyfraith y gyfraith bresennol ar benderfyniadau dadfuddsoddi a ddaeth i'r casgliad bod gan ymddiriedolwyr ac awdurdodau gweinyddol y pŵer i wneud penderfyniadau buddsoddi yn seiliedig ar ffactorau anariannol. Fodd bynnag, dywedodd fod angen "rheswm da i awdurdodau gweinyddol feddwl bod aelodau'r cynllun yn rhannu'r pryder" ac nad oes "risg o niwed ariannol sylweddol i'r gronfa.

# Credoau Buddsoddi

Mae’r Pwyllgor wedi cytuno ar y credoau buddsoddi canlynol mewn perthynas â Buddsoddiad Cyfrifol:

- Yn unol â dyletswydd ymddiriedol y Pwyllgor, dylai ystyriaethau ariannol fod â mwy o bwysau nag ystyriaethau anariannol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, er y gall materion ESG effeithio'n sylweddol ar risg ac adenillion. Felly, dylai ffactorau ESG gael eu gwreiddio ym mhrosesau buddsoddi ac ym mhrosesau penderfynu rheolwyr asedau a benodir gan y Gronfa / Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Bydd Pwyllgor y Gronfa yn ceisio buddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal yng Nghymru pan all buddsoddiadau anariannol ddeillio o hyn, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y ddyletswydd ymddiriedol.
- Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod ganddo ddyletswydd i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Disgwylir y bydd ymgynghori â chwmnïau, yn hytrach nag osgoi buddsoddi, yn fwy effeithiol o ran newid ymddygiad corfforaethol a lleihau risg. Lle bynnag y bo'n bosibl, gweithredu ar y cyd (fel yr hyn a gymerir drwy aelodaeth Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) ac a gomisiynwyd gan Robeco ochr yn ochr â phartneriaid WPP) yw'r llwybr mwyaf llwyddiannus i ddylanwadu ar allbynnau.
- Fel buddsoddwr hirdymor, mae'r Gronfa yn agored i risgiau systemig megis newid yn yr hinsawdd a'r disgwyliad o drosglwyddo i economi carbon isel. Gellir gwella canlyniadau ariannol drwy reoli pa mor agored i risgiau o'r fath yw'r Gronfa.
- Gellir gwella dealltwriaeth a chanlyniadau cyfranddalwyr trwy ddarparu tryloywder ar bob cam o'r gadwyn ychwanegu gwerth.
- Mae hyfforddiant ac addysg yn debygol o fod yn elfen allweddol wrth ddatblygu'r Gronfa a safbwynt y Pwyllgor ar faterion sy'n ymwneud â'r ESG.

# Ymgysylltu

Mae’r Pwyllgor yn cydnabod y gall ymgysylltu llwyddiannus ddiogelu a gwella gwerth hirdymor buddsoddiadau’r Gronfa. Mae’r Pwyllgor yn annog rheolwyr asedau’r Gronfa i ymgysylltu â’r cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt, lle maent yn credu y gellir ychwanegu gwerth, neu y gellir lleihau risg.

Gall yr ymgysylltiad fod yn berthnasol ar draws ystod o asedau. Mae’r Pwyllgor yn cymeradwyo’r egwyddorion sydd wedi’u hymgorffori yng Nghod Stiwardiaeth y DU ac mae’n bwriadu gwneud cais i fod yn llofnodwr i God Stiwardiaeth wedi’i ddiweddaru y DU 2020. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ac unrhyw reolwyr asedau a benodir yn uniongyrchol fod yn llofnodwyr i God Stiwardiaeth y DU 2020. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n credu mewn ymgysylltu ar y cyd ac mae'n aelod o LAPFF, a thrwy hynny mae'n rhoi llais ar y cyd ar draws ystod o faterion llywodraethu corfforaethol.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi gweithgareddau ymgysylltu sydd yn ceisio:

- Sicrhau bod mwy o wybodaeth yn cael ei datgelu am y risgiau sy'n ymwneud â'r ESG a allai effeithio ar werth buddsoddiad;
- Sicrhau tryloywder o ran amlygiad carbon buddsoddiad a sut mae cwmnïau o'r fath yn paratoi ar gyfer y newid i economi carbon isel.
- Annog ei reolwyr asedau i gymryd rhan weithredol mewn ymgysylltiadau cydweithredol â buddsoddwyr eraill lle bernir bod hyn er lles gorau'r Gronfa.

Mae'n ofynnol i ymgynghorydd buddsoddi'r Pwyllgor ddarparu mewnbwn a dadansoddiad i gynorthwyo'r Pwyllgor i asesu perfformiad rheolwyr asedau'r Gronfa o safbwynt ymgysylltu â'r ESG, ac mae hyn hefyd yn ystyriaeth allweddol pan fydd y Pwyllgor yn dyrannu arian i gronfa newydd, neu pan fydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn penodi rheolwr asedau newydd. Mae rôl yr ymgynghorydd buddsoddi hefyd yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r swyddogion i ddatblygu trefniadau hyfforddi priodol.

Mae'r Pwyllgor yn cysylltu'n agos â Phartneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau eu bod hefyd yn mabwysiadu'r dulliau a nodir yn y polisi hwn. Anogir rheolwyr asedau'r Gronfa i ymrwymo i fentrau priodol y diwydiant, gan gynnwys Cod Stiwardiaeth y DU, Tryloywder Costau CPLIL, yr Egwyddorion Buddsoddiad Cyfrifol a gofynion TCFD sydd ar y gorwel.

# Datgelu ac Adrodd

Mae'r Gronfa'n cydnabod bod tryloywder a datgelu yn agwedd bwysig ar fod yn fuddsoddwr Cyfrifol. Bydd y Gronfa yn:

- sicrhau bod Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa ar gael i aelodau, a'i ymgorffori'n llawn yn y ffordd y mae'r Gronfa'n cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'i haelodau,
- sicrhau bod Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa ar gael i randdeiliaid ehangach, ar-lein yn gyhoeddus, ac
- adrodd ar gynnydd y Gronfa a datblygiadau yn y ffordd y mae'n ymdrin â materion Buddsoddi Cyfrifol.

# Lleihau Allyriadau Carbon y Gronfa ac Amcanion y Dyfodol

Lle bo'n briodol, mae'r Pwyllgor yn ystyried sut y mae'n dymuno mynd i'r afael â ffactorau ESG penodol yng nghyd-destun ei rôl wrth ddyrannu asedau a gosod strategaeth fuddsoddi. Gan ystyried cadarnhad Cytundeb Paris ym mis Hydref 2016, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai amlygiad sylweddol i gwmnïau a phrosiectau sy'n allyriadau carbon uchel o fewn portffolio'r Gronfa achosi risg ariannol sylweddol.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod asedau'r Gronfa'n cael eu buddsoddi'n fyd-eang, ac ar draws llawer o sectorau, sy'n golygu bod lleihau allyriadau carbon y Gronfa yn fwy heriol nag y byddai i sefydliad unigol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i osod nod i'r Gronfa fod yn sero net erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero net 5,10 neu 15 mlynedd ynghynt. Mae'r ffactorau a ystyriwyd gan y Pwyllgor wrth osod y nod hwn yn cael eu trafod isod.

Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig i gronfeydd CPLlL chwarae rhan arweiniol wrth lunio'r dyfodol, o ran cefnogi'r newid i economi carbon isel a chyflawni nodau ESG ehangach. Mae'r Pwyllgor yn gallu dylanwadu mewn dwy ffordd: drwy'r penderfyniadau buddsoddi y mae'n eu gwneud; a thrwy ymgysylltu'n barhaus â'r cwmnïau a'r prosiectau y mae'r Gronfa'n buddsoddi ynddynt. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn briodol gosod nod realistig tra hefyd yn edrych ar ddichonoldeb cyflawni nod mwy uchelgeisiol.

Ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cyflawni'r gostyngiad yn allyriadau carbon y Gronfa mewn modd pwyllog. Rhaid i'r Gronfa ganolbwyntio o hyd ar ei phrif rwymedigaeth i dalu buddion i'w haelodau, gan gynnwys ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig. Mae dull pwyllog yn galluogi'r Gronfa i ddal cyfleoedd buddsoddi sy'n deillio o'r newid i economi carbon isel, yn ogystal â lliniaru'r risgiau. At hynny, mae dull pwyllog yn cefnogi stiwardiaeth weithredol, gan roi mwy o amser a mwy o le i'r Pwyllgor roi newid ar waith a chyflawni trawsnewidiad cyfiawn trwy ymgysylltu parhaus.

# Fframwaith i gefnogi uchelgeisiau Hinsawdd y Gronfa

Mae'r Pwyllgor wedi datblygu fframwaith i gefnogi uchelgeisiau hinsawdd y Gronfa, gan gwmpasu Cyfleoedd, Ymgysylltu, a Monitro a Metrigau.

Cyfleoedd

- Adolygu mandadau presennol y Gronfa yng nghyd-destun risg hinsawdd ac uchelgais sero net (datblygiad parhaus fel y dangosir yn Atodiad 1).
- Ystyried a allai unrhyw fandadau ddatblygu ymhellach, neu o bosibl a ddylid eu disodli, oherwydd cyfleoedd buddsoddi sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i gefnogi, ac elwa ar, y trawsnewid carbon isel.
- Cefnogi mentrau Partneriaeth Pensiwn Cymru (fel y 'troshaen datgarboneiddio' a 'dadfuddsoddi o echdynwyr tanwydd ffosil') a chynlluniau i leihau amlygiad carbon y cronfeydd y mae'n eu goruchwylio (ar hyn o bryd, mae tua 82.5% o asedau'r Gronfa yn dod o fewn y Fframwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru, a disgwylir i'r ganran hon dyfu dros amser).

Ymgysylltu

- Cydweithredu â phrotocol ymgysylltu ar y cyd Partneriaeth Pensiwn Cymru, megis comisiynu Robeco ar y cyd i ymgysylltu â rheolwyr asedau'r Gronfa mewn perthynas â gweithgarwch pleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd, ac ymgysylltu â'r cwmnïau rydym yn buddsoddi ynddynt i ddylanwadu a gwella eu gweithgareddau ac ymddygiad ar faterion yn ymwneud â hinsawdd.
- Ymgysylltu'n rheolaidd â rheolwyr asedau'r Gronfa i herio gweithredoedd ac annog arfer gorau, gan gyfeirio at gredoau ac uchelgeisiau hinsawdd y Gronfa.
- Ystyried dadfuddsoddi / ailddyrannu cyfalaf os nad yw ymgysylltu yn rhoi effaith.
- Cydweithio â chronfeydd CPLlL eraill drwy'r LAPFF. Nod y LAPFF yw hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol i ddiogelu gwerth hirdymor cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol. Mae'r Fforwm yn ymgysylltu'n uniongyrchol â channoedd o gwmnïau a'u cadeiryddion. Gwneir hyn drwy feithrin ymddiriedaeth a chael deialog dwy ffordd ar gyfrifoldeb corfforaethol ym meysydd stiwardiaeth, risg hinsawdd, risg gymdeithasol a risg llywodraethu.

Monitro a metrigau

- Cytuno ar fetrigau sy'n edrych yn ôl / ymlaen a gosod targedau tymor byr, canolig a hir ar gyfer pob un, sy'n cefnogi nod sero net cyffredinol y Gronfa (mae hyn yn heriol ar hyn o bryd, tra bod metrigau uchelgais hinsawdd safonol ar gyfer y CPLlL yn dal i gael eu disgwyl, a'r modd y gallwn gyflawni nodau uchelgeisiau hinsawdd eu comisiynu ar y cyd â sawl partner).
- Adolygu buddsoddiadau'r Gronfa mewn perthynas â'r metrigau hyn a gosod cynllun ar gyfer cynnydd.
- Mae monitro cyfredol a chynnydd cadarnhaol rheolwyr asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w gweld yn Atodiad 1.

# Cysylltu gyda Chronfa Bensiwn Gwynedd

Gellir cysylltu gyda ni mewn amryw o ffyrdd:

| | |
|---|---|
| Yn ein swyddfa: | Cronfa Bensiwn Gwynedd<br>Cyngor Gwynedd,<br>Stryd y Jêl,<br>Caernarfon,<br>Gwynedd.<br>LL55 1SH |
| E-bost: | pensiynau@gwynedd.llyw.cymru |
| Ffon: | 01286 679982 |
| Ar-lein: | www.cronfabensiwngwynedd.cymru |

**Atodiad 1: Monitro Rheolwyr Asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd**

| **Rheolwr Buddsoddi** | **Cronfa** | **Dyraniad Targed** | **Datblygiadau erbyn Mawrth 2022** |
|---|---|---|---|
| PPC – Russell Investments | Global Opportunities | 14% | Mae 'troshaen datgarboneiddio' wedi'i rhoi ar waith gan Russell Investments, gan leihau'r ôl troed carbon 25%. |
| PPC – Baillie Gifford, Veritas, and Pzena | Global Growth | 14% | Mae rheolwyr asedau o fewn y gronfa hon wedi cymryd camau i leihau ôl troed carbon. Mae cronfa Paris Aligned Baillie Gifford yn dadfuddsoddi o echdynwyr tanwydd ffosil a darparwyr gwasanaethau tanwydd ffosil. Mae Veritas pob amser yn ceisio buddsoddiadau sy'n gyfystyr â chynaliadwyedd. Mae Pzena wedi gwerthu ei fuddsoddiad mewn cwmni a arferai gyfrannu at 35% o allyriadau carbon rhan Pzena o'r gronfa. |
| PPC – Russell Investments | Absolute Return Bond | 15% | Gwella arferion buddsoddi cyfrifol gan reolwyr y gronfa wedi'i ategu gan ystyriaeth fanwl a nifer o fentrau. |
| PPC – Russell Investments | Multi Asset Credit | 7.5% | Arferion ESG cryf ar draws yr holl reolwyr cronfeydd ac ymrwymiadau'r dyfodol yn gryf iawn. |
| PPC – Russell Investments | Emerging Markets | 2.5% | Mae 'troshaen datgarboneiddio' wedi'i roi ar waith sy'n lleihau'r ôl troed carbon 25%. |
| BlackRock | Aquila Life UK Equity Index | 10.5% | Mae BlackRock wedi llofnodi Cod Stiwardiaeth y DU ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â chwmnïau. |
| BlackRock | Aquila Life GBL Dev Fundamental | 7% | Mae BlackRock wedi llofnodi Cod Stiwardiaeth y DU ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â chwmnïau. |
| BlackRock | ACS World Low Carbon Equity | 12% | Cronfa carbon isel BlackRock sy'n sgrinio tanwyddau ffosil cyn optimeiddio carbon isel, gan leihau carbon o'i gymharu â mynegai ecwiti byd-eang safonol 44% yn ychwanegol. |
| BlackRock | Eiddo | 2.5% | Mae BlackRock yn y 7fed safle yn y sgôr GRESB (Meincnod Cynaladwyedd Global Real Estate - sgôr ESG byd-eang ar gyfer cronfeydd eiddo). |
| Lothbury | Eiddo | 2.5% | Mae Lothbury yn y 4ydd safle yn y sgôr GRESB. |
| UBS | Eiddo | 2.5% | Mae UBS yn safle 1af yng ngraddfa GRESB am y 5ed flwyddyn yn olynol. |
| Columbia Threadneedle | Eiddo | 2.5% | Mae Columbia Threadneedle yn safle 32 yn y sgôr GRESB, ond maent yn gwella bob blwyddyn gyda gwelliannau mewn defnydd ynni, allyriadau nwyon tŷ gwydr a pherfformiad ynni asedau. |
| Partners Group | Ecwiti Preifat | 5% | Mae Partners Group yn ymgorffori ESG yn strategaeth, cyfeiriad a nodau eu cwmnïau portffolio. |
| Partners Group | Is adeiledd | 2.5% | Mae cronfa Partners Group yn buddsoddi mewn ynni gwyrdd, tanwyddau carbon isel ac is adeiledd dal carbon. |

**Extract from https://lgpsboard.org/index.php/structure-reform/bds-main**

**(last updated 23 February 2022)**

**Guidance on investments which conflict with UK foreign and defence policy**

**Background**

After failing to defend previous LGPS investment guidance in the Supreme Court (see board summary of judgment) the government undertook to bring it before Parliament through legislation.

The Boycotts, Divestment and Sanctions (BDS) Bill was announced in the Queen's speech for this Parliament (see the article below this one on this page). Although no timetable for the Bill is available it was expected to be the primary measure to bring about the restrictions in the original guidance plus other measures to restrict expenditure and procurement decisions made by public bodies.

**The current position on divestment**

It is the Board's understanding that it is for LGPS funds to make prudent divestment decisions based on an assessment of the financial consequence of a number of matters, including those relating to Environmental, Social and Governance (ESG) factors. Where such decisions are based on non-financial factors LGPS funds should follow the Law Commission's direction that any financial impact should not be significant and that the decision would likely be supported by scheme members.

**PSPJO Bill**

In advance of the BDS Bill Robert Jenrick MP raised, at second reading in the Commons, the possibility of amending the PSPJO Bill to include a power for the Secretary of State to make guidance in this area. Support from government was not forthcoming in terms of its own amendment, however he subsequently tabled an amendment (listed as NC1) which was debated on 22nd February at report stage.

Following an at times heated debate and – importantly – a change of stance by the government to support the amendment it passed by 299 votes to 81. On the same day (22nd February) the Bill passed its third reading and will now return to the Lords for consideration of amendments prior to royal assent.

**The Amendment NC1**

*Guidance to public service pension scheme managers on investment decisions*

*(1) The Public Service Pensions Act 2013 is amended in accordance with subsection (2).*

*(2) In schedule 3, paragraph 12(a), at end insert "including guidance or directions on investment decisions which it is not proper for the scheme manager to make in light of UK foreign and defence policy.*

*Member's explanatory statement*

*This new clause would enable the Secretary of State to issue guidance to those authorities that administer public sector pension schemes, including the local government pension scheme, that they may not make investment decisions that conflict with the UK's foreign and defence policy*

**Effect of the amendment**

The amendment would alter the Public Service Pensions Act (PSPA) 2013 as follows – amendment in square brackets:

***3 Scheme regulations***

*(1)Scheme regulations may, subject to this Act, make such provision in relation to a scheme under section 1 as the responsible authority considers appropriate.*

*(2)That includes in particular—*

*(a)provision as to any of the matters specified in Schedule 3;*

*……*

***SCHEDULE 3***

*Scope of scheme regulations: supplementary matters*

*12 The administration and management of the scheme, including—*

*(a) the giving of guidance or directions by the responsible authority to the scheme manager (where those persons are different); [including guidance or directions on investment decisions which it is not proper for the scheme manager to make in light of UK foreign and defence policy].*

**Next steps**

The above changes to the PSPA 2013 will not occur until the PSPJO Bill gains royal assent which is expected sometime in March. Prior to it gaining assent the Bill will return to the Lords for consideration of amendments ('ping pong') at which time the amendment may be subject to further debate.

Guidance under this provision, should it be forthcoming, would be expected to be drafted under Investment Regulation 7.

*7.—(1) An authority must, after taking proper advice, formulate an investment strategy which must be in accordance with guidance issued from time to time by the Secretary of State.*

Such guidance would also be expected to be subject to a period of consultation which would provide an opportunity for interested parties, including the SAB, to comment on its potential impact. Furthermore, as this will be guidance and not primary legislation further legal action cannot be ruled out. Although the courts could this time be assured it was the intention of Parliament to provide a power to the Secretary of State in this area, a challenge could still be made on the grounds that the guidance was seen to go beyond that intention.

**Questions**

There are many questions around this provision, most of which cannot be answered until the exact wording of any guidance made under it is available. These include:

- Will the guidance be specific in nature, for example, singling out a particular instance of divestment or be broader, for example banning divestment unless specific government sanctions are in place?
- Will the guidance only cover decisions made for non-financial reasons?
- Will the guidance require immediate divestment upon the imposition of government sanctions on a business or country?
- Will pension funds still be able to make divestment decisions based on a prudent assessment of the impact on long term returns of ESG matters where no sanctions are in place?
- How will 'in the light of' be interpreted by any guidance?

The Board will seek answers to these and other questions from DLUHC and HMT.

**Other amendments tabled**

There were two other amendments tabled (NC2 and NC3) which potentially would have had an impact on the LGPS in respect of investments to be made in line with the Glasgow 2021 Climate Pact and a requirement to divest from fossil fuels by 2030. Neither of these amendments were put before the House at report stage so they will not be included in the Bill.

Today the government's legislative programme was laid out and includes a Boycotts, Divestment and Sanctions Bill the purpose of which will be to stop public bodies from taking a different approach to

UK Government sanctions and foreign relations and will cover purchasing, procurement and investment decisions. The gov.uk website includes a briefing note on the full programme.

The legal opinions and summaries page has been updated with a link to a summary of the judgment of the Supreme Court in the LGPS investment guidance boycotts and divestment case.

*'The SAB welcomes the clarity brought by the judgment of the Supreme Court in the case of R (on the application of Palestine Solidarity Campaign Ltd and another) Appellants) v Secretary of State for Housing, Communities and Local Government (Respondent). In seeking to restrict the outcome as well as the considerations taken account of by an LGPS administering authority when developing its responsible investment policy, the government has been judged to have overstepped its powers. It is the Board's view that Responsible Investment policy decisions belong at the local level reflecting: the need to pay pensions both now and in the future; local democratic accountability and the views of scheme members; and that outcomes of policy developments should not be subject to restrictions based on unrelated matters'*

The Board's secretariat and legal advisor have commenced work on a draft summary of the judgment which will be published on this site as soon as it is available.

The Supreme Court today handed down its judgment in the case of R (on the application of Palestine Solidarity Campaign Ltd and another) Appellants) v Secretary of State for Housing, Communities and Local Government (Respondent) which was originally heard on 20th November 2019. The court found in favour of the appellants and would appear to take the position that the Government has the power to direct authorities on the approach they take to investment decisions, but not the investments they make.

A Summary of the judgement (PDF 2 pages 180kb) published by the practice at 11KBW is available - please note this summary is the view of 11KBW not necessarily the Board which has yet to consider the implications of the judgment for itself.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **17 MAWRTH 2022** |
| TEITL: | **POLISI SGILIAU A GWYBODAETH A CHYNLLUN HYFFORDDIANT 2022/23** |
| PWRPAS: | **I gymeradwyo Polisi Sgiliau a Gwybodaeth a Chynllun Hyfforddiant 2022/23** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cymeradwyo polisi Sgiliau a Gwybodaeth a Chynllun Hyfforddiant 2022/23 ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.

1.2 Mae'r polisi a chynllun yma wedi ei drafod gan y Bwrdd Pensiwn ar Fawrth 7fed 2022.

## 2. ADRODDIAD LLYWODRAETHU DA

2.1 Mae'r adroddiad Llywodraethu Da gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun Lloegr a Chymru yn nodi nifer o argymhellion a fyddai'n gwella llywodraethu'r CPLlL, ac yn cyrraedd lefel o gydraddoldeb o ran llywodraethu ar draws cronfeydd CPLlL yng Nghymru a Lloegr.

2.2 Mae'r adroddiad Llywodraethu Da yn argymell i:

*'Gyflwyno gofyniad yn y Canllawiau i unigolion allweddol o fewn y CPLlL, gan gynnwys Swyddogion CPLlL a Phwyllgorau Pensiynau, gael y lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.'*

Ffocws allweddol yr adolygiad Llywodraethu Da oedd bod gan swyddogion y Gronfa, yn ogystal ag aelodau Pwyllgor lefel ddigonol o wybodaeth i allu cyflawni eu rolau priodol yn effeithiol.

*'Dylai Awdurdodau gweinyddol gyhoeddi polisi sy'n nodi eu dull o gyflwyno, asesu a chofnodi cynlluniau hyfforddi i fodloni'r gofynion hyn.'*

2.3 Mae'r Gronfa felly wedi llunio polisi er mwyn cyflawni'r gofynion yma.

## 3. POLISI SGILIAU A GWYBODAETH

Mae'r polisi drafft yn Atodiad 1 ac yn cwmpasu'r prif feysydd canlynol:

- Gofynion hyfforddiant
- Arweiniad
- Proses sefydlu
- Cynllun hyfforddiant
- Darparu hyfforddiant
- Monitro
- Adrodd

## 4. CYNLLUN HYFFORDDIANT

4.1 Mae cynllun hyfforddiant wedi ei greu ar gyfer 2022/23 yn Atodiad 2.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r polisi Gwybodaeth a Sgiliau a chynllun hyfforddiant 2022/23.

# Polisi Gwybodaeth a Sgiliau

Mawrth 2022

# Cynnwys

Cyflwyniad........................................................................**Error! Bookmark not defined.**

Gofynion Hyfforddi ..........................................................................................................3

Rheoliadau........................................................................**Error! Bookmark not defined.**

Proses Anwytho………………………………………………………………………….4

Cynllun Hyfforddiant………………………………………………………………………..4

Cyflwyno'r Hyfforddiant ..................................................................................................5

Monitro ............................................................................................................................5

Adrodd……………………………………………………………………………………5

Cysylltu gyda Cronfa Bensiwn Gwynedd ........................................................................6

Atodiad 1 Cofnod Hyfforddiant…………………………………………………………….7

# Polisi Gwybodaeth a Sgiliau

## Cyflwyniad

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa). Mae'r Gronfa yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar gyfer oddeutu 49,600 o aelodau sydd yn cynnwys Cynghorau Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, nifer o gynghorau cymuned a thref, a chyrff eraill ar yr atodlen ac a ganiateir.

O fewn ei Gyfansoddiad, mae Cyngor Gwynedd wedi dirprwyo cyfrifoldeb gweinydd y CPLlL i'r Pwyllgor Pensiynau o aelodau etholedig. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn gorff gwneud penderfyniadau dros y Gronfa, yn cael eu cynghori gan swyddogion y Gronfa yn eu rôl fel gweinyddwyr y cynllun. Mae'r swyddogion a Pwyllgor Pensiynau yn cael cymorth gan Fwrdd Pensiwn Lleol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o aelodau CPLlL a sefydliadau cyflogi CPLlL.

Pwrpas Polisi Sgiliau a Gwybodaeth y Gronfa ydi i helpu'r uwch swyddogion, aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ac aelodau'r Bwrdd i ddeall eu swyddogaeth a chyfrifoldebau priodol, gan osod allan sut y byddant yn sicrhau ac yn cynnal y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol er mwyn cyflawni eu swyddogaeth a'u chyfrifoldebau. Mae gan y Bwrdd Pensiwn rôl oruchwylio a chraffu, ac mae'n rhoi cyngor ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Pensiynau.

# Gofynion Hyfforddi

Mae'r polisi yma, a hyfforddiant rheolaidd, yn anghenreidiol oherwydd:

- y canlyniadau posib o beidio gweinyddu'r Gronfa mewn dull priodol oherwydd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth
- cymhlethdod materion pensiynau a buddsoddi
- newidiadau anochel mewn aelodaeth Pwyllgor Pensiynau a Bwrdd oherwydd cylch etholiadau a phenodi
- bod y Gronfa yn cael ei thrin gan y rheolwyr buddsoddi fel cleient proffesiynol o dan *FCA Markets in Financial Instruments Directive II (MiFID II).*

Mae'r polisi yma yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, Bwrdd Pensiwn ac uwch swyddogion y Gronfa. Disgwylir i'r unigolion yma arddangos yn barhaus eu hymroddiad personol i hyfforddiant a sicrhau bod yr amcanion yma yn cael eu cwrdd, cyflawni eu dyletswydd ymddiriedol i'r Gronfa, ac yn y pen draw buddoliwyr CPLlL.

# Rheoliadau

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydnabod bod nifer sylweddol o ganllawiau a rheoliadau sydd yn berthnasol i hyfforddi sydd wedi eu targedu at Gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynlluniau Pensiwn Sector Breifat. Mae'r rhain yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i:

- Y Ddeddf Pensiynau 2004
- Y Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013
- Rheoliadau'r cynllun (Rheoliadau CPLlL 2013, Rheoliadau Trosiannol CPLlL 2014, a Rheoliadau Buddsoddi CPLlL 2016)
- Cylchlythyrau CPLlL, bwletinau misol, canllawiau cyflogwyr, canllawiau gweinyddwyr, barn gyfreithiol, a dogfennau eraill gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol
- Cod Ymarfer CIPFA a Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth
- Yr elfennau Gwybodaeth a Sgiliau yng nghanllaw Egwyddorion Llywodraethu Cyfuno Buddsoddiadau
- Codau ymarfer a phecynnau cymorth y Rheoleiddiwr Pensiynau
- Canllawiau anstatudol, barn gyfreithiol, a dogfennau eraill Bwrdd Cynghori'r Cynllun CPLlLB
- Fframwaith "MiFID II" (Markets in Financial Instruments Directive)

Mae'r Gronfa yma yn gefnogol o'r arweiniad a rheoliadau yma ac wedi ceisio cwmpasu neges a natur y ffynonellau yma yn ei pholisi a chynllun hyfforddi ei hun.

# Proses Anwytho

Wrth ymuno gyda'r Pwyllgor Pensiynau, Bwrdd Pensiwn neu Dîm Rheoli Cronfa Bensiwn, mae aelod newydd, swyddog neu ymgynghorwyr yn derbyn y dogfennau canlynol i'w cynorthwyo i gael dealltwriaeth sylfaenol o Gronfa Bensiwn Gwynedd:

- Canllawiau'r aelodau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Adroddiad Prisiad Actiwarïaid diweddaraf
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sydd yn cynnwys:
    - Y Datganiad Strategaeth Cyllido
    - Y Datganiad Llywodraeth a Chydymffurfio
    - Y Datganiad Strategaeth Buddsoddi
    - Y Polisi Cyfathrebu

Mae angen i aelodau newydd ac uwch swyddogion **gwblhau cwrs Hanfodion CPLlL (LGPS Fundamentals) mor fuan a phosib, unwaith y bydd wedi ei gwblhau, bydd yr aelod yn gallu pleidleisio mewn pwyllgorau.** Anogir aelodau i gwblhau Pecyn Cymorth Ymddiriedolwyr y Rheoleiddiwr Pensiynau a chymryd diddordeb mewn materion cyfoes a amserol.

# Cynllun Hyfforddiant

Mae'r Gronfa yn gefnogol tuag at hyfforddiant gyda'r bwriad o ddarparu sesiynau rheolaidd i aelodau pwyllgor y gronfa bensiwn, aelodau bwrdd pensiwn a swyddogion a fydd yn cyfrannu at lefel eu sgiliau a gwybodaeth. Bydd y Gronfa'n datblygu Cynllun Hyfforddi yn flynyddol, sy'n ystyried y canlynol:

**Hyfforddiant yn seiliedig ar bynciau**
Bydd hyfforddiant mewn perthynas â phynciau cyfredol yn cael ei ddarparu (neu ar gael gan sefydliadau partner) yn ôl yr angen a'i amseru'n briodol, megis pan fydd angen gwneud penderfyniadau mewn perthynas â materion cymhleth, neu ar faterion nad ydynt wedi'u hystyried.

**Ymwybyddiaeth gyffredinol**
Mae disgwyliad ar y rhai y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt y dylent gadw gwybodaeth resymol am ddatblygiadau parhaus a materion cyfoes, a meddu ar lefel dda o ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion sy'n ymwneud â phensiynau sy'n briodol i'w rolau.

# Cyflwyno'r Hyfforddiant

Bydd y Gronfa yn ariannu unrhyw hyfforddiant a fydd yn cael ei gyflwyno drwy nifer o ffyrdd gan cynnwys:

- Diwrnodau hyfforddiant mewnol yn cael eu darparu gan swyddogion a/ neu ddarparwyr allanol
- Hyfforddiant fel rhan o gyfarfodydd (e.e. Pwyllgor Pensiynau) yn cael ei ddarparu gan swyddogion a/ neu ddarparwyr allanol
- Digwyddiadau hyfforddiant allanol
- Cylchredeg deunydd darllen
- Mynychu seminarau a chynadleddau a gynigir gan gyrff ledled y diwydiant
- Mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau gyda gwmnïau rheoli asedau
- Mynychu digwyddiadau a cyfarfodydd Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Ffynonellau amrywiol o Dolenni i hyfforddiant ar-lein, gweminarau a chyfarfodydd rhithiol a chynadleddau

Yn ychwanegol, mae swyddogion y Gronfa ac ymgynghorwyr ar gael i ateb cwestiynau yn barhaus gan gynnwys darparu mynediad i ddeunyddiau o ddigwyddiadau hyfforddiant blaenorol.

# Monitro

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod pwysigrwydd monitro effeithiolrwydd ac addasrwydd parhaus y Polisi. Er mwyn nodi os yw amcanion y polisi hwn yn cael eu cyflawni, bydd y Rheolwr Buddsoddi yn cynnal log hyfforddi sy'n cofnodi presenoldeb ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant fel y gwelir yn Atodiad 1. Bydd unrhyw ganfyddiadau neu fewnwelediad yn cael eu hystyried a'u gweithredu yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r Polisi Gwybodaeth a Sgiliau.

# Adrodd

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor a'r bwrdd yn flynyddol yn nodi:

• yr hyfforddiant a ddarparwyd/a fynychwyd yn y flwyddyn flaenorol ar lefel unigol;
• sylwebaeth ar sut mae hyn yn cymharu â'r Cynllun Hyfforddi; a
• unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen, megis adolygiad o'r Cynllun Hyfforddiant.

Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa. Bydd aelodau'r pwyllgor ac aelodau'r bwrdd pensiwn yn cael manylion seminarau, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi perthnasol eraill sydd i ddod.

# Cysylltu gyda Chronfa Bensiwn Gwynedd

Gellir cysylltu gyda ni mewn amryw o ffyrdd:

| | |
|---|---|
| Yn ein swyddfa: | Cronfa Bensiwn Gwynedd<br>Cyngor Gwynedd,<br>Stryd y Jêl,<br>Caernarfon,<br>Gwynedd.<br>LL55 1SH |
| E-bost: | pensiynau@gwynedd.llyw.cymru |
| Ffon: | 01286 679982 |
| Ar-lein: | www.cronfabensiwngwynedd.cymru |

# Cronfa Bensiwn Gwynedd Pension Fund
# Cofnod Hyfforddiant / Training Record 2022-23

## Enw/ Name:
## Rôl/ Role:

| Dyddiad/ Date | Amser/ Time | Teitl/ Title | Darparwr/ Provider | Nodiadau/ Notes |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Cynllun Hyfforddiant Cronfa Bensiwn Gwynedd  2022/23

### Cefndir a Chyflwyniad

Mae'n ymarfer da i swyddogion, aelodau pwyllgor ac aelodau bwrdd i feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n ymwneud a phensiynau
- pwlio buddsoddiadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol
- cyfleodd buddsoddi perthnasol

### Hyfforddiant 2022/23

Rydym wedi gosod isod rhestr o bynciau hyfforddi sydd wedi ei gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'r pynciau isod wedi ei selio ar flaenoriaethau presennol ac yn ystyried y gallai fod newid i aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2022:

| **Pwnc** | **Dyddiad** | **Yn berthnasol i** | **Darparwr** |
|---|---|---|---|
| Trosolwg o Gronfa Bensiwn Gwynedd | Mehefin 2022 | Aelodau Pwyllgor | Swyddogion Cronfa Bensiwn Gwynedd a Rheolwyr Cronfa |
| Dosbarthiadau Asedau Marchnad a rôl y Dyrannwr | Chw 1<br>Ebrill – Mehefin 2022 | Swyddogion, Aelodau Pwyllgor a Bwrdd | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| Ecwiti Cynaliadwy Gweithredol | | | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| Gwybodaeth pŵl: Llywodraethu a Gweinyddu | Chw 2<br>Gorffennaf – Medi 2022 | Swyddogion, Aelodau Pwyllgor a Bwrdd | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| Gwybodaeth pŵl: Rolau a Chyfrifoldebau | | | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| Beth mae Buddsoddi Cyfrifol yn ei olygu i PPC | Chw 3<br>Hydref – Rhagfyr 2022 | Swyddogion, Aelodau Pwyllgor a Bwrdd | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| Cod Stiwardiaeth ac Adrodd TCFD | | | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| Cynnydd pwlio CPLlL eraill | Chw 4<br>Ionawr – Mawrth 2023 | Swyddogion, Aelodau Pwyllgor a Bwrdd | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| Cyfleodd Cydweithio | | | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| Hanfodion CPLlL | Hydref 2022 | Aelodau Pwyllgor Newydd | Cymdeithas Llywodraeth Leol |
| Cau Cyfrifon | Mawrth 2023 | Swyddogion | CIPFA |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **17 MAWRTH 2022** |
| TEITL: | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn 31ain Rhagfyr 2021, mae 83% o gronfa Gwynedd wedi ei bŵlio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru- 56% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol.

Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn safonol iawn ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly mae'r adroddiad yma'n diweddaru'r Pwyllgor.

## 2. Cronfeydd Ecwiti Byd-Eang

**Cronfa Twf Byd-Eang**

Mae hwn yn gronfa Fyd-Eang sydd yn cynnwys tri rheolwr sylfaenol (Baillie Gifford, Veritas a Pzena) gyda Link fel y rheolwr buddsoddi.

Mae'r gronfa yma wedi cymryd camau mawr yn y maes buddsoddi cyfrifol gyda Baillie Gifford wedi cwblhau newid ei bortffolio yn 'Global Alpha Paris Aligned' gan sgrinio allan darparwyr tanwydd ffosil ac echdynwyr tanwydd ffosil, sydd wedi lleihau dwysedd nwyon tŷ gwydr yn sylweddol. Mae Veritas a Pzena yn asesu eu portffolio yn barhaus am effaith ffactorau amgylcheddol, economaidd a llywodraethol, ac yn gweithredu'n gyfrifol fel bo'r angen.

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 1.6 | 13.8 | 15.5 |
| Meincnod | 6.2 | 19.6 | 15.9 |
| **Gwarged enillion** | **-4.6** | **-5.8** | **-0.4** |

Mae'r Gronfa wedi perfformio'n sylweddol uwch na'r meincnod yn gyson ers y cychwyn, ond mae perfformiad wedi disgyn y tu ôl i'r meincnod yn ddiweddar. Ceir perfformiad yn is na'r meincnod yn y chwarter olaf gyda phryderon am adfywiad yr economi ond roedd hyn i'w ddisgwyl ar ôl cael perfformiad mor gryf yn ddiweddar. Perfformiodd Baillie Gifford a Pzena yn is na'r meincnod oherwydd rhai stociau penodol, ond perfformiodd Veritas yn well na'r meincnod gyda'r amodau yn ffafriol iddyn nhw. Ceir rhagor o wybodaeth gan y rheolwyr yma yn ein panel buddsoddi sydd yn cael ei gynnal yr un diwrnod a'r pwyllgor yma.

**Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang**

Mae hwn yn gronfa Fyd-eang a Rhanbarthol sydd yn cynnwys wyth rheolwr sylfaenol (Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWQ, Oaktree a Nissay) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae 'troshaen datgarboneiddio' wedi'i rhoi ar waith gan Russell Investments, gan leihau'r ôl troed carbon 25% y gronfa yma.

Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Rhagfyr 2021:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | 5.2 | 19.1 | 15.7 |
| Meincnod | 6.2 | 19.6 | 15.5 |
| **Gwarged enillion** | **-1.0** | **-0.5** | **0.2** |

Mae'r gronfa yma wedi ei selio ar ddull cyfunol gyda nifer o steiliau gwahanol (megis gwerth a thwf) sydd yn cyd- fynd gyda'i gilydd. Mae'r Gronfa wedi perfformio yn dda ers y cychwyn ond wedi gorffen y tu ôl i'r meincnod yn y chwarter hyd at 31ain Rhagfyr 2021. Cofrestrodd y Gronfa enillion absoliwt cadarnhaol dros y pedwerydd chwarter ond gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol. O ran perfformiad, roedd yn well gan fuddsoddwyr ansawdd dros y chwarter, sef y ffactor a berfformiodd orau yn 2021 hefyd. Roedd y diogelwch a gynigir gan ddaliadau cap mawr hefyd yn cael ei ffafrio, tra bod twf yn perfformio'n well na'r gwerth. O'r herwydd, roedd y dull aml-ffactor o Jacobs Levy yn fuddiol dros y cyfnod, yn ogystal â strategaeth graidd Numeric, sydd â gorbwysedd i dwf a chapiau mawr. Yn syndod, cafodd rheolwyr twf Morgan Stanley a SW Mitchell drafferth dros y cyfnod, yn arbennig oherwydd amlygiad Morgan Stanley o fewn technoleg a dyraniad rhy isel SW Mitchell i'r sector defnyddwyr sydd wedi perfformio'n gryf. Fodd bynnag, llwyddodd strategaeth werth Sanders i berfformio'n well, gan elwa ar orbwysau i rai o'r sectorau a berfformiodd orau (h.y., technoleg, gofal iechyd) dros y cyfnod. Y prif ffactorau ar ei hôl hi yn y pedwerydd chwarter oedd capiau bach, momentwm, anweddolrwydd isel a chynnyrch. Roedd hyn yn atal strategaeth anweddolrwydd isel Numeric. Yn y cyfamser, tanberfformiodd Marchnadoedd Datblygol a marchnad ecwiti Japan dros y cyfnod. Roedd hyn yn pwyso ar enillion ar gyfer Oaktree.

### 3. Cronfeydd Incwm Sefydlog

Lansiodd y Bartneriaeth bum is- gronfa incwm sefydlog yn 2020 ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn dau ohonynt: Cronfa Gredyd Aml-ased a Chronfa Enillion Bond Absoliwt.

**Cronfa Gredyd Aml- ased**

Mae gan y gronfa bum rheolwr buddsoddi sylfaenol (ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae arferion buddsoddi cyfrifol ar draws yr holl reolwyr ac mae ymrwymiadau'r dyfodol yn gryf iawn yn y maes.

Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31ain Rhagfyr 2021:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | -0.1 | 2.4 | 5.5 |
| Meincnod | 1.0 | 4.1 | 4.1 |
| **Gwarged enillion** | **-1.1** | **-1.7** | **1.4** |

Cofnododd y Gronfa elw absoliwt gwastad yn y pedwerydd chwarter. Roedd marchnadoedd incwm sefydlog craidd yn cael trafferth o gymharu ag ecwitïau byd-eang y cyfnod hwn er gwaethaf lledaeniad amrywiad Covid-19 Omicron. Nododd banciau canolog byd-eang y byddant yn lleihau cefnogaeth economaidd y pandemig yn sylweddol yng nghanol chwyddiant cynyddol barhaus. Arweiniodd arbenigwr benthyciadau Ewropeaidd ICG - y strategaeth sy'n perfformio cryfaf ers ei sefydlu - enillion y chwarter hwn. Roedd data chwyddiant uwch yn gwthio disgwyliadau cyfraddau llog i fyny a'r galw cysylltiedig am offerynnau cyfradd gyfnewidiol. Cefnogwyd benthyciadau Ewropeaidd ymhellach gan y galw parhaus am arenillion a diffygion isel disgwyliedig. Mae lledaeniad cynnyrch uchel corfforaethol wedi'i dynhau'n gymedrol yn yr UD ond wedi ehangu'n sylweddol yn yr UE yng nghanol mesurau cloi newydd i gynnwys cynnydd mewn achosion coronafirws. Tanberfformiodd Barings ac arbenigwr amlsector BlueBay, gan ddychwelyd rhywfaint o'u perfformiad gwell yn y tymor hwy y cyfnod hwn. Yn y cyfamser, roedd bod yn agored i warantau masnachol â chymorth morgais nad ydynt yn asiantaethau yn sail i ragoriaeth Voya. Roedd Dyled y Farchnad Ddatblygol yn wastad dros y cyfnod. Gorffennodd rheolwr arbenigol Man GLG ychydig y tu ôl i'w feincnod, gan ddioddef o dan bwysau i enwau Dwyrain Canol.

**Cronfa Enillion Bond Absoliwt**

Mae gan y gronfa bedwar rheolwr buddsoddi sylfaenol (Wellington, Putnam, Aegon ac Insight) a Russell Investments yw'r rheolwr buddsoddi. Mae'r rheolwyr buddsoddi yma yn gwella eu harferion buddsoddi cyfrifol sydd wedi'u hategu gan ystyriaeth fanwl a nifer o fentrau.

Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Rhagfyr 2021:

| | Tri Mis | Blwyddyn | Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Perfformiad | -0.7 | 0.2 | 0.5 |
| Meincnod | 0.5 | 2.1 | 2.1 |
| **Gwarged enillion** | **-1.2** | **-1.9** | **-1.6** |

Dychwelodd y Gronfa enillion islaw ei tharged yn y chwarter. Roedd marchnadoedd incwm sefydlog craidd yn cael trafferth o gymharu ag ecwitïau byd-eang y cyfnod hwn er gwaethaf lledaeniad amrywiad Covid-19 Omicron. Synnodd Banc Lloegr farchnadoedd ym mis Tachwedd drwy gadw cyfraddau'n gyson, cyn syndod eto gyda chynnydd cyfradd o 15 pwynt sail ym mis Rhagfyr (i 0.25%). Ar ôl cyrraedd cynnyrch o 0.69% ganol mis Rhagfyr, gwerthodd meincnod 10 mlynedd gilt y DU ar ei ganfed yn dilyn y cyhoeddiad gan orffen dim ond pum pwynt sail yn is ar gyfer y chwarter ar 0.97%. Mewn mannau eraill, cynyddodd cynnyrch meincnod 10 mlynedd Trysorlys yr UD ac elw bwnd 10 mlynedd yr Almaen ddau bwynt sail i 1.51% a -0.18% yn y drefn honno. Cofnododd pob strategaeth waelodol elw absoliwt negyddol yn y cyfnod hwn.

## 4. Datblygiadau

### 4.1 Marchnadoedd Datblygol

Mae cronfa Gwynedd wedi symud ei chyfran Marchnadoedd Datblygol o gwmni Fidelity i'r gronfa PPC ar 20fed Hydref 2021.

Y rheolwyr o fewn y gronfa newydd yw: Artisan, Bin Yuan, Barrow Hanley, Axiom, Numeric ac Oaktree, gyda Bin Yuan yn arbenigwr Tsieina. Mae 'troshaen datgarboneiddio' wedi'i roi ar waith sy'n lleihau ôl troed carbon 25%.

### 4.2 Marchnadoedd Preifat

Mae grŵp wedi ei sefydlu yn edrych ar yr opsiynau o gyfuno asedau i'r categori yma sydd yn cael ei gynorthwyo gan Hymans Robertson. Mae asesiad o ofynion pob cronfa wedi cael ei wneud gyda thrafodaeth barhaus i benderfynu ar y strwythur a mecanwaith priodol i fuddsoddi ynddo.

Credyd Preifat ac Is adeiladwaith yw'r ffocws cyntaf gyda phroses pwrcasu wedi cymryd lle gyda'r cynghorydd archwilio arbenigol, Bfinance, i ddewis rheolwyr buddsoddi yn y maes yma. Bydd argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd- bwyllgor Llywodraethu ar 24ain Mawrth 2022 er mwyn apwyntio'r rheolwyr llwyddiannus.

Bydd y grŵp yn symud ymlaen nesaf i bwrcasu rheolwr ecwiti preifat, cyn symud ymlaen i drafod yr opsiynau ar gyfer pŵlio gweddill y marchnadoedd preifat, gan gynnwys eiddo.

### 4.3 Cynrychiolydd Aelodau ar y Cydbwyllgor Llywodraethu

Yng nghyfarfod Cyngor Llawn ar 7fed Hydref 2021, cymeradwywyd newidiadau i'r Cytundeb Rhyng- Awdurdod sydd yn caniatáu cynrychiolydd aelodau ar y Cydbwyllgor Llywodraethu.

Mae'r broses benodi rŵan wedi digwydd a bydd argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar Fawrth 24ain 2022. Yr argymhelliad yw mai Osian Richards, aelod Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd, fydd y cynrychiolydd aelodau cyntaf a hynny am gyfnod o ddwy flynedd.

### 4.4 Cod Stiwardiaeth

Ar 10 Mawrth 2022, cadarnhawyd bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cyrraedd y safon adrodd ddisgwyliedig yn 2021 a bydd yn cael ei rhestru fel llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU. Mae hwn yn gyflawniad arwyddocaol ac yn adlewyrchu'r llywodraethu a stiwardiaeth gref o fewn y Bartneriaeth.

## 5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.